Statws *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 6

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i gael ei darparu i unigolion wrth gychwyn y ddarpariaeth o ofal a chymorth

Gwybodaeth am y gwasanaeth

19.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.

(2) Rhaid i'r canllaw—

(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddaru yn ôl yr angen,

(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth,

(c) cael ei roi i bob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth,

(d) yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, gael ei roi i'r awdurdod lleoli, ac

(e) cael ei wneud ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unigolyn.

(3) Rhaid i'r canllaw gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) gwybodaeth am sut i godi pryder neu wneud cwyn;

(b) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod pob unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 19 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Cytundeb gwasanaeth

20.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y rhoddir i bob unigolyn gopi wedi ei lofnodi o unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â—

(a) y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r unigolyn;

(b) unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir i'r unigolyn.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir mewn unrhyw gytundeb o'r fath.

Gwybodaeth Cychwyn

I2 Rhl. 20 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)